# Lleisiau Cymru ar…
## 80 mlynedd o gyngor

Rydym yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar bobl i ddod o hyd i'w ffordd ymlaen – pwy bynnag ydyn nhw, a beth bynnag yw eu problem.

cyngor ar bopeth
citizens advice

## Hanes Jean:

Roedd Jean Sherriff yn 16 oed pan alwyd cyfarfod cyhoeddus i sefydlu Canolfan Cyngor ar Bopeth yn y Rhyl. Ers dechrau'r rhyfel, roedd dros 50 o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth wedi'u sefydlu yn ne Cymru. Roedd yn amlwg bod galw yng ngogledd Cymru hefyd.

Agorodd Canolfan Cyngor ar Bopeth y Rhyl ei drysau ar 23 Mawrth 1940, mewn siop ar Stryd y Dŵr. Roedd y 'White Elephant Shop' (fel y'i gelwid) yn gweithredu yn ôl yr arfer, ond gallai unrhyw un alw heibio am baned o de a sgwrs.

Gellid rhoi rhoddion a byddai eitemau bach yn cael eu gwerthu ym mlaen y siop i wneud arian. Roedd ystafell yng nghefn y siop lle roedd modd cynnal trafodaethau preifat â chleientiaid.

Gosodwyd hysbyseb yn ffenestr y siop: "Citizen Advice Bureau – bring us your problems."

Pan ddaeth y rhyfel i ben, caeodd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol yn y Rhyl ac aeth Jean yn ôl i weithio i'r cyngor lleol.

Ym 1969, sef 23 blynedd yn ddiweddarach, ailagorodd Canolfan Cyngor ar Bopeth y Rhyl ei drysau (mewn eglwys y tro hwn), a dychwelodd Jean i'r Ganolfan.

Arhosodd Jean yng Nghanolfan Cyngor ar Bopeth y Rhyl am y 41 mlynedd nesaf. Yn y blynyddoedd diweddarach, symudodd Jean i ffwrdd oddi wrth y cynghori a bu'n canolbwyntio ar hyfforddi a chynorthwyo cynghorwyr a oedd newydd eu penodi. Fe wnaeth Jean ymddeol yn 2010, yn 86 oed, ar ôl rhoi 47 mlynedd aruthrol i Gyngor ar Bopeth.




O'r chwith i'r dde: Jean yn ystod y rhyfel, a Jean wrth ei desg yn y 2000au

**1939**
Rhoi cyngor mewn 200 o leoliadau ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd.

**1948/9 - 1954**
Cyngor ar Bopeth yn dylanwadu ar y polisi dogni ar ôl y rhyfel, gan roi cyngor ar ddogni dillad a chelfi tan 48/49 a dogni bwyd tan 1954.

**1965**
Cyfanswm nifer yr ymholiadau yn cyrraedd 1.25 miliwn erbyn 1965.

**1941**
Y gwasanaeth teithiol cyntaf. Roedd fan geffylau wedi'i haddasu, yn teithio i ardaloedd a effeithiwyd gan y bomio.




**1960**
Erbyn 1960, mae nifer yr ymholiadau gan ddefnyddwyr yn cynyddu'n gyflym ac mae'n parhau i gynyddu drwy gydol y ddau ddegawd nesaf.



# Ein Heffaith

Mae **8 o bob 10 person** a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn teimlo eu bod yn llai isel neu'n llai pryderus, neu eu bod o dan lai o straen.

Mae iechyd corfforol bron **60%** o'r bobl wedi gwella.

Mae'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus wedi arbed **£27 miliwn**.

Mae llywodraeth leol wedi arbed **£4 miliwn** drwy leihau digartrefedd.

Mae bron **£2 yn cael eu harbed am bob £1** a fuddsoddir yn ein gwasanaeth.

Caiff yr ystadegau hynny eu hesbonio yma.

# Gwirfoddoli: Hanes Rebecca



Tua 3 blynedd yn ôl, cafodd Rebecca Crozier o Bagillt ei derbyn i'r ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a daeth allan i ganfod bod ei thŷ wedi'i gondemnio, ac felly roedd yn ddigartref.

Daeth i Ganolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint i gael cymorth a chefnogaeth o ran adfer ei hawliadau am fudd-daliadau.

"Fe wnaeth Cyngor ar Bopeth fy helpu i adfer fy hawliadau am fudd-daliadau, fe wnaeth Cyngor ar Bopeth fy helpu i ddelio â dod o hyd i rywle i fyw ac fe wnaeth Cyngor ar Bopeth fy nghyfeirio at y man lle'r oedd angen imi fod pan na allwn wneud penderfyniad drosof fy hun."

Bellach, mae Rebecca yn cael cymorth iechyd meddwl, mae ganddi le i fyw ac mae ei mab gartref gyda hi unwaith eto.

Penderfynodd ddefnyddio ei phrofiadau i helpu pobl eraill drwy ddod yn gynghorydd dan hyfforddiant yng Nghanolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint.

"Heb Gyngor ar Bopeth, ni fyddai hyn wedi digwydd o gwbl," meddai. "Doeddwn i ddim yn gallu llenwi'r ffurflenni. Ond gyda chymorth ac empathi gan Gyngor ar Bopeth roedd yn hawdd. Mae gwybod bod rhywun yn eich cefnogi pan rydych ar eich isaf yn aruthrol."

**1976**
O 1976 ymlaen, mae ymholiadau am gyflogaeth a budd-daliadau ar gynnydd.

**1984/85**
Mae streic y glowyr yn 84/85 yn arwain at nifer mawr o ymholiadau am fudd-daliadau, tanwydd, tai a dyledion defnyddwyr.

**2001**
Lansio prosiect Gwell Cyngor Gwell Iechyd, drwy roi hawliau lles a chyffredinol mewn lleoliadau gofal sylfaenol ledled Cymru.

**1984**
Erbyn 1984, ymholiadau am nawdd cymdeithasol sydd fwyaf cyffredin am y tro cyntaf, sy'n adlewyrchu nifer cynyddol y bobl sy'n dibynnu arno.



**1990/95**
Yn ystod hanner cyntaf y 1990au cafwyd nifer mawr o ymholiadau am ôl-ddyledion Treth y Pen a nifer cynyddol o ymholiadau gan geiswyr lloches a ffoaduriaid.

# Dyfodol Cyngor

I bawb, am 80 mlynedd

For everyone, for 80 years

## Ein haddewid i'r bobl rydyn ni'n eu helpu. Erbyn 2022:

**Ni fyddwch yn ei chael hi'n anodd** cael cymorth gennym.

Bydd ein **gwasanaeth** yn teimlo'n **gydgysylltiedig**.

Byddwn yn eich helpu i ddod o hyd i'r ffordd ymlaen, **beth bynnag yw eich problem.**

Cewch **lefel y cymorth sydd ei hangen arnoch.**

Rydych chi'n gwybod y byddwn yn **siarad drosoch**.

**2003**
Roedd llawer o ymholiadau am ddiwygio lles drwy gydol y degawd, a chafwyd nifer mawr o ymholiadau am gredydau treth.

**2009**
Lansiwyd prosiect Teuluoedd â Phlant Anabl yng Nghymru, sef gwasanaeth i sicrhau bod teuluoedd yn cael y budd-daliadau y mae ganddyn nhw'r hawl i'w cael.

**2013**
Ar y cyd â Shelter, lluniwyd yr adroddiad Gwireddu Hawliau: Atal tenantiaid rhag cael eu troi allan am resymau dialgar yng Nghymru, a arweiniodd at gyflwyno deddfau i ddiogelu tenantiaid yng Nghymru.




**2015**
Cyhoeddwyd yr adroddiad Hefyd ar gael yn Gymraeg, a arweiniodd at newidiadau o ran safonau gwasanaeth cwsmeriaid i gwmnïau a reoleiddir yng Nghymru.

**2015**
Cymorth annibynnol am ddim i dystion mewn llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr drwy'r Gwasanaeth Tystion a lansiwyd gwasanaeth wyneb yn wyneb ar gyfer Pension Wise.

**2018**
Cyflwynwyd cwyn sylweddol am 'gosb am deyrngarwch' i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ynghyd â thystiolaeth sy'n dangos bod cwsmeriaid fyddlon yn talu gormod am wasanaethau fel band eang.